



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# Cyngor Caerdydd

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Aseiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Ref: 404A2010**

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Caerdydd

Arweiniwyd Tîm Aseu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Caerdydd gan Steve Barry o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

# **Mae dull Cyngor Caerdydd (y Cyngor) o gyflawni gwelliant yn datblygu'n dda ac fe'i hategir gan drefniadau effeithiol ar y cyfan ac arweinyddiaeth gref**

**Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ  
Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn Testun: 029 2032 0660  
E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n berthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti'n berthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk)



# Cynnwys

Crynodeb	4
Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser	6
Mae'r Cyngor yn parhau â rhaglen drawsnewid sylfaenol, ac er ei fod yn ail-werthuso elfen allweddol o'r rhaglen honno, mae gan ei ddull cyffredinol o weithredu y potensial i gyflawni gwelliant	6
Sicrhaodd y Cyngor ei fod yn meithrin dealltwriaeth gadarn o'i weithrediadau a'i opsiynau ar gyfer newid drwy adolygiad sylfaenol o weithrediadau yn 2007	6
Mae gan y Cyngor drefniadau dibynadwy ar waith ar gyfer rheoli rhaglen newid gymhleth sydd wedi nodi risgiau allweddol a'i alluogi i ailystyried ei opsiynau	7
Drwy reoli risgiau allweddol yn ofalus a gwella ei allu i ddangos canlyniadau, mae gan ddull y Cyngor o weithredu botensial i gyflawni gwelliant	8
Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella	9
Mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nid yw bob amser yn gwneud defnydd da o TGCh nac asedau eraill, ac nid yw ei drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau eto	9
Mae arweinyddiaeth glir a llywodraethu cadarn, a ategir gan drefniadau rheoli ariannol effeithiol, yn tanatgu'r gwaith o gyflawni nodau strategol y Cyngor	9
Mae dull y Cyngor o reoli risg, perfformiad a'i bobl yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nid yw cynaliadwyedd ei ddull o ymdrin â TGCh yn glir ac ni chanolbwyntir digon ar ganlyniadau	10
Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ddull o reoli asedau adeiladau yn wan	12

## Crynodeb

- 1 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad o Welliannau bob blwyddyn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, sef cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:
  - Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
  - Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.
- 3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull newydd hwn, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol, a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad cynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Mae'r adroddiad yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol yn unig, ac mae wedi'i lunio i ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 6 Casgliad ein Hasesiad Corfforaethol rhagarweiniol yw bod dull y Cyngor o gyflawni gwelliant yn datblygu'n dda ac wedi'i ategu gan drefniadau effeithiol ar y cyfan ac arweinyddiaeth gref.
- 7 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:
  - mae'r Cyngor yn parhau â rhaglen drawsnewid sylfaenol, ac er ei fod yn ail-werthuso elfen allweddol o'r rhaglen honno, mae gan ei ddull cyffredinol o weithredu y potensial i gyflawni gwelliant;
  - mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nid yw bob amser yn gwneud defnydd da o TGCh nac asedau eraill, ac nid yw ei drefniadau cynllunio yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau eto.



## Meysydd i'w gwella

- 8 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd. Mae'r Cyngor eisoes wedi nodi meysydd ar gyfer gwella ac mae'n cymryd camau sydd â'r nod o ddatrys problemau, yn enwedig o ran rheoli asedau a TGCh. Mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

### Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

C1 Datblygu'r fframwaith gwireddu buddiannau ar gyfer 'Llunio'r Dyfodol' i nodi p'un a yw'r Cyngor yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

C2 Datblygu trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad i hysbysu'r Cyngor, dinasyddion a chymunedau'n well o ganlyniadau ei weithgareddau.

C3 Mireinio mesurau yn y Cynllun Corfforaethol newydd fel eu bod yn dangos graddau'r gwelliant mewn gwasanaethau a phrosesau busnes yn glir.

C4 Adolygu trefniadau Ariannu TGCh, gan eu cysylltu'n glir â chynlluniau ariannol tymor canolig i sicrhau y caiff buddsoddiad mewn technoleg ei gyflawni yn y ffordd fwyaf cost effeithiol a chynaliadwy.

C5 Mynd i'r afael â gwendidau o ran rheoli asedau drwy weithredu argymhellion adroddiad rheoli adeiladau Swyddfa Archwilio Cymru.

## Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

### Mae'r Cyngor yn parhau â rhaglen drawsnewid sylfaenol, ac er ei fod yn ail-werthuso elfen allweddol o'r rhaglen honno, mae gan ei ddull cyffredinol o weithredu y potensial i gyflawni gwelliant

- 9 Yn 2007 cydnabu'r Cyngor fod sefyllfa ariannol heriol, galw cynyddol a'r angen i ddangos canlyniadau clir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn golygu y byddai'n rhaid iddo drawsnewid y ffordd yr oedd yn darparu gwasanaethau.

### Sicrhaodd y Cyngor ei fod yn meithrin dealltwriaeth gadarn o'i weithrediadau a'i opsiynau ar gyfer newid drwy adolygiad sylfaenol o weithrediadau yn 2007

- 10 Ym mis Chwefror 2007 cydnabu'r Cyngor yr angen i newid y ffordd yr oedd yn gweithio wrth ragweld galw cynyddol a hinsawdd ariannol heriol. Sefydlodd dîm prosiect mewnol a gefnogwyd gan ymgynghorwyr allanol i gynnal Adolygiad Gweithredol Sylfaenol ym mis Ebrill 2007.

- 11 Aeth yr Adolygiad Gweithredol Sylfaenol ati i gasglu data ar feysydd gwasanaeth unigol er mwyn adolygu gweithrediadau a chostau rhedeg ac adolygodd feysydd gwasanaeth trawsbynciol â blaenoriaeth a chynhaliodd ymweliadau meincnodi. Cynhyrchodd yr ymarfer log o gyfleoedd â blaenoriaeth gan nodi dros 200 o gyfleoedd i wella gyda'r costau cysylltiedig a'r budd i'r Cyngor.

- 12 Ym mis Mai 2008 cyhoeddodd y Cyngor y ddogfen 'Partneriaethau ar gyfer Newid' gan holi barn aelodau etholedig, undebau llafur, pobl leol a rhanddeiliaid allweddol eraill ynglŷn â'r themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn sgîl yr Adolygiad Gweithredol Sylfaenol a sut y gellid datblygu dulliau newydd posibl o ddarparu gwasanaethau. Y mis hwnnw, lluniodd ymgynghorwyr y Cyngor ddogfen o'r enw 'High Level Case for Change' hefyd sef adroddiad a oedd yn esbonio'r sail resymegol ar gyfer newid ac opsiynau ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau yn y dyfodol.

- 13 Ym mis Medi 2008, cynhaliodd y Cyngor sesiynau briffio ar gyfer pob aelod etholedig mewn grwpiau pleidiol ynglŷn â chanlyniadau'r Adolygiad Gweithredol Sylfaenol. Cytunodd y Cyngor ar yr angen i newid gan ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a'r adroddiad 'High Level Case for Change'. Erbyn mis Rhagfyr 2008 argymhellodd y Bwrdd Gweithredol fodel newydd o weithio a sefydlodd Raglen Newid Trawsnewidiol Strategol i gyflawni newid.



## **Mae gan y Cyngor drefniadau dibynadwy ar waith ar gyfer rheoli rhaglen newid gymhleth sydd wedi nodi risgiau allweddol a'i alluogi i ailystyried ei opsiynau**

- 14** Ym mis Ionawr 2009 rhoddodd y Cyngor drefniadau llywodraethu'r rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol ar waith a phenododd Reolwr Rhaglen. Dirprwyodd y cyfrifoldeb am reoli'r Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol o ddydd i ddydd ynghyd ag elfennau o'r broses o wneud penderfyniadau i'r Prif Weithredwr, gan ymgynghori â'r Aelod Gweithredol ar gyfer Cyllid a Darparu Gwasanaethau. Mae'r Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol yn cynnwys amryw o brosiectau cydgysylltiedig y mae gan bob un ohonynt uwch swyddog cyfrifol (o'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol) a rheolwr prosiect. Y Prif Weithredwr yw'r uwch swyddog cyfrifol ar gyfer y Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol gyffredinol. Sefydlodd y Cyngor Fforwm Newid Trawsnewidiol Strategol i hwyluso'r cyfathrebu rhwng aelodau etholedig, swyddogion sy'n ymwneud â darparu'r Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol, undebau llafur a staff. Mae'r trefniadau hefyd yn cynnwys y Bwrdd Gweithredol mewn penderfyniadau allweddol a'r Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad wrth ddadansoddi cynigion penodol sy'n dod i'r amlwg a monitro'r buddiannau.
- 15** Mae'r Cyngor yn glir o ran y pwysau ariannol a wynebier ganddo a'r cyfraniad y mae'n disgwyl i'r rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol ei wneud i'r arbedion sydd eu hangen. Nododd y gyllideb ar gyfer 2010-11 ddiffyg o tua £17.5 miliwn (o'r pwysau ariannol sy'n bodoli eisoes a phwysau ariannol newydd). Hefyd nododd gyfanswm arbedion posibl o tua £14 miliwn (£10 miliwn i ddod o feysydd gwasanaeth

a £3.5 miliwn o'r rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol), y byddai tua £12 miliwn ohono'n arbedion effeithlonrwydd.

- 16** Yn ystod 2009 nododd y Cyngor brosiectau cam cyntaf a phenododd reolwyr prosiect. Sefydlodd y Cyngor Gronfa Newid Trawsnewidiol Strategol wrth Gefn i baratoi prosiectau ar gyfer newid.
- 17** Elfen o'r strategaeth ar gyfer newid yw ymgysylltu â phartneriaid strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau allweddol. Yn ôl disgrifiad y Cyngor, 'partneriaid strategol' yw'r sawl sy'n gwneud ymrwymiad hirdymor i gyflawni canlyniadau llwyddiannus ac sy'n rhannu risgiau â'r Cyngor. Mae partneriaid o'r fath yn cynnwys cyrff cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid gwirfoddol masnachol.
- 18** Bwriad ymgysylltu â phartneriaid masnachol strategol yw sicrhau arbenigedd nad yw ar gael o fewn y Cyngor, trosglwyddo gwybodaeth a chreu enillion effeithlonrwydd. Nodwyd tair partneriaeth bosibl ym mis Gorffennaf 2009: partner technoleg corfforaethol; partner tir ac eiddo corfforaethol a phartner seilwaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Y nod yw defnyddio lefelau gwariant presennol fel sail ar gyfer contractau hirdymor. Cyflogodd y Cyngor bartner technoleg ym mis Hydref 2009, am gyfnod o 15 mlynedd, gan ragweld defnydd mwy effeithlon o'r gwariant blyneddol o £10 miliwn a sicrhau cyngor a chefnogaeth i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg.
- 19** Mae rheolwyr rhaglen yn cyflwyno adroddiadau misol i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Ym mis Gorffennaf 2009 ystyriodd y Bwrdd Gweithredol yr heriau ariannol sylweddol a oedd yn dod i'r amlwg, gan gydnabod bod angen cymryd camau ar frys er mwyn

ysgogi creu proffiliau 'buddiant' ar gyfer prosiectau presennol a phrosiectau yn y dyfodol o fewn y Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol.

**20** Mae'r trefniadau hyn wedi sicrhau parhad y momentwm ar gyfer newid er gwaethaf ymddeoliad y cyn Brif Weithredwr ac ymadawiad cyfarwyddwr corfforaethol ar ddiwedd 2009. Maent hefyd wedi nodi'r angen i ailystyried y trefniadau ar gyfer partneriaethau strategol yn sgîl profiadau diweddar. Mae gwaith yn parhau i sefydlu fframwaith ar gyfer gwerthuso p'un a yw manteision bwriadedig newid yn cael eu gwireddu, o ran arbedion ariannol a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

**21** Ar 30 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamedig ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2008-09, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor.

**22** Ar 30 Tachwedd 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor. Y materion allweddol a wynebai'r Cyngor y pryd hynny oedd pwysau ariannol parhaus a'r angen i sicrhau bod disgwyliadau corfforaethol yn cael eu bodloni'n gyson drwy'r sefydliad cyfan.

## **Drwy reoli risgiau allweddol yn ofalus a gwella ei allu i ddangos canlyniadau, mae gan ddull y Cyngor o weithredu botensial i gyflawni gwelliant**

**23** Wrth lunio'r adroddiad hwn, ailenwyd y Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol yn 'Llunio'r Dyfodol'. Penododd y Cyngor Brif Weithredwr newydd a dyrchafwyd Prif Swyddog yn Gyfarwyddwr Corfforaethol. Mae'r newidiadau o ran cyfrifoldebau Prif Swyddogion a gyflwynwyd yn 2009 yn dechrau cael eu hymgorffori ac mae newidiadau angenrheidiol i systemau TGCh yn cael eu cyflwyno i optimeiddio prosesau corfforaethol a darparu sail ar gyfer integreiddio gwasanaethau a rennir. Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd camau i wella trefniadau rheoli asedau, archwilio'r defnydd presennol o adeiladau ac opsiynau ar gyfer y dyfodol.

**24** Mae gwaith yn mynd rhagddo i werthuso effaith newid drwy 'Fframwaith Gwireddu Buddiannau' a luniwyd ym mis Mawrth 2010 a gynlluniwyd i nodi manteision ariannol y trefniadau newydd a'u manteision o ran darparu gwasanaethau. Mae gwaith hefyd yn dechrau i ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth gyflwyno adroddiadau ar berfformiad, er bod hyn ar gam cynnar iawn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn gallu nodi'n glir p'un a yw'n cyflawni'r hyn y mae ei angen, yn enwedig o ystyried graddau'r pwysau ariannol a ragwelir.





## Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

**Mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nid yw bob amser yn gwneud defnydd da o TGCh nac asedau eraill, ac nid yw ei drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau eto**

**Mae arweinyddiaeth glir a llywodraethu cadarn, a ategir gan drefniadau rheoli ariannol effeithiol, yn tanategu'r gwaith o gyflawni nodau strategol y Cyngor**

**25** Bu arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor yn sefydlog ers nifer o flynyddoedd a bu diben clir a chyfeiriad teithio cyson. Hyd at ddiwedd 2009 bu hefyd sefydlogrwydd ar lefel y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, er gwaethaf newidiadau yn rolau aelodau'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Mae'r ffaith bod aelodau'n gyfarwydd â'r trefniadau gweithredu a'r ffactorau sy'n llywio newid wedi cefnogi parhad y rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol. Gwnaeth ein hadolygiad o drefniadau

llywodraethu yn 2009 gydnabod cryfderau'r trefniadau hynny yn y Cyngor, ond hefyd nododd angen i ymgorffori gwell trefniadau llywodraethu ymhob maes gwasanaeth.

**26** Mae cefnogaeth dda yn parhau i waith craffu a chaiff rhaglenni gwaith eu cynllunio i gyflwyno enillion effeithlonrwydd a gwelliant. Mae'r Panel Archwilio Annibynnol yn datblygu ei rôl fel cyfrwng i herio gweithgarwch y Cyngor.

**27** Mae gan y Cyngor hanes da o reoli cyllidebau, a hyd yma mae wedi rheoli ei adnoddau ac nid yw wedi gorwario. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddatblygu'n dda a'i ymgorffori ym mhrosesau a gweithdrefnau rheoli cyllidebol y Cyngor. Mae gan y Cyngor hanes da o ymateb i newidiadau sylweddol mewn lefelau ariannu.

**28** Paratôdd y Cyngor ei gynllun corfforaethol newydd ochr yn ochr â'i gyllideb ar gyfer 2010-11. Ym mis Gorffennaf 2009, roedd yn ofynnol yn ôl strategaeth y gyllideb i feysydd gwasanaeth nodi £21 miliwn o arbedion posibl ar gyfer 2010-11 (7.5 y cant o'r cyllidebau y gellir eu rheoli), i gynnwys elfen o enillion effeithlonrwydd. Yn wyneb pwysau ariannol sylweddol pellach penderfynodd y Cyngor ym mis Tachwedd 2009 y dylai weithredu ei raglen newid strategol yn gynt er mwyn helpu i wireddu lefel sylweddol o arbedion ariannol yn 2010-11, sef blwyddyn yn gynharach na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.

**Mae dull y Cyngor o reoli risg, perfformiad a'i bobl yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nid yw cynaliadwyedd ei ddull o ymdrin â TGCh yn glir ac ni chanolbwyntir digon ar ganlyniadau**

- 29** Mae gan y Cyngor ddull Rheoli Risg a ymgorfforwyd yn dda ac mae ei brosesau yn nodi risgiau corfforaethol allweddol. Mae swyddogion penodol yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i liniaru risg, ond ni chaiff effeithiolrwydd y trefniadau unigol eu profi bob amser. Ym mis Hydref 2009 penododd y Cyngor Bartner Risg Strategol i ddarparu cyngor penodol yn ystod y newid sylweddol.
- 30** Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig a systematig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad, ond dibynnir ar olrhain camau gweithredu ac adolygu dangosyddion perfformiad. Nid yw'r canlyniadau bob amser yn glir pan gyflawnwyd targedau, neu pan na chyflawnwyd targedau. Er enghraifft, y targed o ran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn 2008-09 oedd 93.5 y cant, a'r canlyniad oedd 92.76 y cant, ac er i hyn gael ei nodi'n achos o fethu â chyflawni'r targed, mae arwyddocâd y gwahaniaeth yn aneglur. Yn yr un modd, pennodd y Cyngor darged o sicrhau bod 90 y cant o briffyrdd a thir perthnasol a arolygiwyd oedd o safon uchel neu dderbyniol o lendid. Y canlyniad oedd 86.93 y cant, ond unwaith eto mae arwyddocâd y gwahaniaeth a ph'un a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu adferol, neu p'un a oedd angen cymryd unrhyw gamau adferol, yn aneglur.
- 31** Mae effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer gwerthuso effaith y Cynllun Corfforaethol newydd yn gyfyngedig oherwydd nid y dangosyddion perfformiad dan sylw yw'r rhai mwyaf priodol i ddangos gwelliant o ran darparu gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd o ran prosesau busnes, ac nid yw'r targedau'n ddigon heriol. Mae 'canlyniadau' lefel uchel y cynllun corfforaethol, a'r blaenoriaethau allweddol a'r datganiadau strategol amrywiol sy'n eu hategu, o gymorth wrth gyflwyno gwybodaeth yn y ddogfen, ond hyd yma nid ydynt yn sicrhau bod y ddogfen yn canolbwyntio ar ganlyniadau'n fwy.
- 32** Mae swyddogion wedi nodi'r angen i ddatblygu mesurau sy'n meithrin dealltwriaeth gliriach o'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cyngor yn dechrau hyrwyddo Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau fel dull y gall gwasanaethau ei ddefnyddio i ddatblygu mesurau sy'n rhoi darlun cliriach o p'un a gyflawnwyd canlyniadau buddiol. Nid yw'r dull gweithredu hwn wedi'i ymgorffori eto, a bydd angen ymgysylltu ymhellach ag aelodau etholedig, Prif Swyddogion a rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Cyngor.
- 33** Mae trefniadau adnoddau dynol y Cyngor wedi'u cysoni'n dda â'r Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol. Nodwyd swyddogaethau staff fel rhai 'trafodaethol' neu 'arbenigol' ac mae prosiectau braenaru yn cael eu gweithredu i nodi goblygiadau'r trefniadau gweithredu newydd. Mae Strategaeth Pobl y Cyngor yn nodi dyheadau eang a'r bwriad i sefydlu trefniadau cynllunio'r



gweithlu. Mae'r Strategaeth Pobl yn ddogfen allweddol y bwriedir iddi gefnogi cyflogeion wrth iddynt gyflawni agenda'r Cyngor, ond ceir diffyg mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ynddi sydd eu hangen i benderfynu p'un a yw gweithredu'r strategaeth yn arwain at ganlyniadau buddiol.

- 34** Mae'r Strategaeth Pobl a sefydlwyd yn 2007 yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau ei weithlu. Mae'r strategaeth yn darparu dull strwythuredig o weithredu, gan ddefnyddio ystod o fentrau gwahanol, yn cynnwys defnyddio cynlluniau pobl ac adnoddau sy'n nodi'r lleihad a fwriedir a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny.
- 35** Mae polisiâu a datganiadau Adnoddau Dynol yn cael eu hadolygu i adlewyrchu gofynion y rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol. Mae trefniadau gwell ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch wedi arwain at well lefelau presenoldeb, cyflwynwyd polisi gallu newydd a bwriedir cynnal adolygiadau pellach o'r polisi achwyn a'r polisi disgyblu. Mae un prosiect braenaru yn adolygu'r strwythur rheoli gyda'r nod o symleiddio'r strwythur drwy leihau meysydd rheolaeth a haenau rheoli.
- 36** Gwneir cynnydd o ran gwerthuso swyddi a datblygu trefniadau ar gyfer y statws unffurf. Bwriedir ymgynghori â staff yn ystod haf 2010 gyda'r nod o weithredu'r trefniadau tua diwedd 2010.
- 37** Er bod gan y Cyngor ddisgwyliadau corfforaethol clir o ran gweithredu trefniadau adnoddau dynol, megis cynllunio'r gweithlu, arfarnu staff a datblygiad personol, canfu nad yw'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson ar lefel weithredol. Fel gyda threfniadau rheoli perfformiad eraill, prin yw'r

ffocws ar y canlyniadau a gyflawnir yn sgîl gweithredu polisiâu. Er enghraifft, er bod y Cyngor yn gallu nodi graddau'r gweithgarwch dysgu a datblygu corfforaethol a gynhaliwyd dros gyfnod penodol, nid yw mor glir p'un a yw'r gweithgarwch hwnnw wedi cael effaith fuddiol neu wedi arwain at welliant. Cyflwynwyd proses werthuso tri cham, y bwriedir i'r cam olaf werthuso'r effaith ar ôl mynychu cwrs.

- 38** Mae partneriaethau strategol allweddol ar waith. Adolygodd y Cyngor weithgarwch partneriaeth yn 2009 a nododd nad oedd y canlyniadau a fwriadwyd wedi'u nodi'n glir ac nad aed i'r afael â materion allweddol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu trefniadau gweithio cymdogaeth a defnyddio atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau i benderfynu a fu unrhyw ganlyniadau buddiol o weithgarwch y bartneriaeth.
- 39** Nododd y Rhaglen Newid Trawsnewidiol Strategol fod angen i'r Cyngor wneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg i drawsnewid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau er mwyn cyflawni enillion effeithlonrwydd. Y gydnabyddiaeth hon oedd un o'r ffactorau a ysgogodd sefydlu Partneriaeth Technoleg Strategol. Mae'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar ei ddefnydd o TGCh drwy weithio gyda'i bartneriaid strategol i adolygu swyddogaethau ac atebion technoleg cyfredol ym mhob rhan o'r Cyngor a nodi galluoedd cyffredin ac achosion o ddyblygu ymdrechion. Mae gan y Cyngor nifer o atebion gwahanol ar waith, a chaiff y rhain eu safoni. Y canlyniad a fwriedir yw sefydlu seilwaith a systemau TGCh cyffredin, rhesymoleddig ac integredig yn y Cyngor cyfan.

**40** Mae dull y Cyngor o ariannu datblygiadau TGCh yn y dyfodol yn gysylltiedig â 'Shaping the Future' ond mae'r cynlluniau ariannol a'r trefniadau i sicrhau bod buddsoddiad mewn technoleg yn gynaliadwy yn aneglur. Nid yw cynnal a chadw a datblygu'r seilwaith TGCh yn gysylltiedig â rhaglen gloywi technoleg i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfoes ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth. Nid yw'r seilwaith TGCh wedi'i gynnwys yn y cynlluniau ariannol Tymor Canolig a allai arwain at orbenion cymorth diangen; risgiau i ddarparu gwasanaethau a niweidio enw da'r Cyngor. Mae gan y Cyngor ddull traddodiadau o ariannu TGCh bwrdd gwaith, drwy gyllidebau gwasanaeth a ddatganolwyd, ond efallai nad hwn yw'r dull mwyaf cost effeithiol ac nid oes rhaglen diweddarau bwrdd gwaith gorfforaethol ffurfiol ar waith.

### **Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ddull o reoli asedau adeiladau yn wan**

**41** Yn 2009 cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau rheoli asedau gan ddarparu adroddiad manwl i'r Cyngor a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o wella trefniadau. Nodwyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol nad yw'n cynnwys egwyddorion sy'n ddigon cadarn i'w alluogi i reoli eiddo yn effeithiol, ac nid oes fframwaith ar waith i'w gefnogi. Nododd y Cyngor yr angen i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli adeiladau yn ystod yr Adolygiad Gweithredol Sylfaenol ac mae wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith a gynlluniwyd i lywio gwelliant.

